



THE LAST FIREFOX

Ysgrifenydd gan Lee Newbery
darluniwyd gan Laura Catalán

PECYN GWEITHGAREDDAU
CA2



THE LAST FIREFOX

gan Lee Newbery
darluniwyd gan Laura Catalán

Rhwng bwllis yn yr ysgol a phethau'n newid gartref, mae bywyd braidd yn ddychrynlyd ar gyfer Charlie Challinor. A phan mae'n cael ei wneud yn warcheidwad dros gennai bach blewog o'r enw Cadno, mae pethau'n mynd yn fwy dychrynlyd fyth. Oherwydd nid unrhyw llwynog yw Cadno; mae'n llwynog y tân - yr unig un o'i fath - ac mae heliwr sinistr o fyd arall ar ei drywydd. Wedi'i ysgubo i antur annisgwyl i amddiffyn ei ffrind fflamadwy, bydd angen i Charlie ddod o hyd i'r dewrder nad oedd o erioed wedi meddwl oedd ganddo, os yw am achub yr olaf o llwynogod y tân ...

Mae gweithgareddau yn y pecyn hwn yn archwilio themâu:

TEULU × CYFEILLGARWCH × DEWRDER

Mae modd eu defnyddio i gefnogi:

**LLYTHRENNEDD × YSGRIFENNU CREADIGOL
ADDYSG BERSONOL, GYMDEITHASOL AC IECHYD × CELF**

Byddwch angen:

- Y detholiad o The Last Firefox <https://www.puffinschools.co.uk/resources/extract-the-last-firefox/>
- Templedi ar gyfer y gweithgareddau
- Pin ysgrifennu neu bensiliau

Mae'n bosib y bydd athrawon yn dymuno adolygu'r banciau geiriau ym mhob gweithgaredd am gymorth pellach gyda'r eirfa. Byddai modd defnyddio deilliannau'r gwaith ysgrifenedig i greu arddangosfa ar themâu dewrder a chyfeillgarwch.

Ar gyfer Gweithgaredd 3, byddai'n syniad efallai i athrawon gael gair sensitif gydag unrhyw ddisgybl sydd wedi eu mabwysiadu i'w paratoi ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Ar gyfer Gweithgaredd 4, mae'n bosib y bydd athrawon am wahodd disgyblion i ddod â charreg fechan i'r ysgol, i ysgrifennu neu osod eu neges o gyfeillgarwch arni.

Gweithgaredd 1: Llwynog y tân

Amcan Dysgu: Trafod y teimladau sy'n gysylltiedig â phrofiadau llwynog y tân, ac ysgrifennu disgrifiad byr o safbwynt llwynog y tân

Gweithgaredd 2: Mae'r cyfan yn yr enw!

Amcan Dysgu: Datblygu gwybodaeth o'r iaith Gymraeg, a dysgu'r eirfa Gymraeg ar gyfer yr anifeiliaid sydd yn y stori

Gweithgaredd 3: Llun Teuluol

Amcan Dysgu: Trafod beth mae mabwysiadu yn ei olygu a'r gwahanol fathau o deuluoedd, a thynnu llun teuluol i ddatblygu dealltwriaeth bod teuluoedd yn dod mewn pob lliw a llun

Gweithgaredd 4: Cerrig Cyfeillgarwch

Amcan Dysgu: Datblygu dealltwriaeth o'r rhinweddau sy'n gwneud ffrind da, ac ysgrifennu neges o gyfeillgarwch

Gweithgaredd 5: Dod o hyd i'ch 'tân mewnl'

Amcan Dysgu: Archwilio'r syniad o ddewrder a theimlo'n ofnus, ac ysgrifennu ffyrdd y gallwch chi helpu eich hun i ddod o hyd i'ch 'tân mewnl' a bod yn ddewr



GWEITHGAREDD 1: LLWYNOG Y TÂN

“Ni welwyd yr un llwynog y tân yn y gwyllt ers dros gan mlynedd. Hyd y gwyddom ni, Cynffon Tân yw’r olaf ohonyn nhw - ac felly fe addawais y byddwn yn dod o hyd i gartref newydd ar ei gyfer”.

Darllenwch y detholiad sy’n sôn am sut mae Charlie yn cyfarfod y llwynog y tân.

Y llwynog y tân yma yw’r olaf o’i fath, ac mae Charlie wedi cael y dasg o edrych ar ei ôl tra bo Teg, y gwarcheidwad, yn ceisio dod o hyd i gartref newydd ar ei gyfer. Mae gan llwynog y tân bwerau hudol, ac mae bwystfil dychrynlyd, y Grendilock yn ei hela ac am fynd ag ef yn ôl i diriogaeth hudol Fargone!

Mae’r stori yn cael ei hadrodd o safbwynt Charlie, ac yn y detholiad rydym yn darllen sut mae’n teimlo syndod mawr o gyfarfod â Teg a’r llwynog y tân! Ond sut mae’r llwynog y tân yn teimlo?

Sut deimlad fyddai:

- dod drwy borth hud a chanfod byd newydd
- ffoi rhag creadur dychrynlyd fel y Grendilock gan ddefnyddio pwerau tân hudol
- cyfarfod ffrind newydd sydd yn mynd i edrych ar eich ôl chi

Gan weithio fesul dau/dwy, siaradwch am beth rydych chi’n meddwl byddai’r llwynog y tân yn ei deimlo, gan roi cylch o amgylch y geiriau rydych chi’n meddwl gallai ddisgrifio ei deimladau:

**NERFUS × WEDI DYCHRYN × WEDI CYNHYRFU × HAPUS × OFNUS
BLINEDIG × BLIN × LLAWN GOBAITH × DIOGEL × CHWILFRYDIG**

Dychmygwch mai chi yw’r llwynog y tân. Yn y gofod isod, disgrifiwch sut rydych yn teimlo o fod wedi dianc rhag Grendilock gan ddefnyddio’ch pwerau hudol, a gwneud ffrind newydd sydd yn mynd i geisio’ch cadw’n ddiogel! Mae’r llinell gyntaf wedi ei hysgrifennu ar eich cyfer.

“Rwy’n edrych i fyny ac yn gweld llygaid y bachgen yn edrych i lawr arnaf fi wrth iddo fy

nal yn ei freichiau.....”





GWEITHGAREDD 2: MAE'R CYFAN YN YR ENW!

Mae *The Last Firefox* wedi ei gosod mewn tref yng Nghymru o'r enw Bryncastell. Mae Charlie yn cael gwersi Cymraeg yn yr ysgol. Yn y stori, mae Charlie yn penderfynu galw Cynffon Tân, llwynog y tân yn Cadno, sef gair arall yn y Gymraeg am llwynog.

Wyddoch chi am unrhyw eiriau eraill yn y Gymraeg?

Edrychwch ar y rhestr isod o anifeiliaid eraill sy'n cael eu crybwyll neu sy'n ymddangos yn y stori, a cheisiwch ddysgu'r enwau Cymraeg amdanynt! Defnyddiwch yr arweiniad ar ynganu i'ch helpu i'w dweud nhw:

GŴYDD	[Goo-eeth]
HWYADEN	[hwee-add-en]
BOCHDEW	[Boch-de-oo]
LLYGODEN FAWR	[thlyg-oh-den Va-oor]
HELGI	[Hell-geeh]
CATH	[kath]
CI	[Key]
PYSGODYN	[pus-god-in]

Gweithgaredd ychwanegol

Mae sawl anifail yn ymddangos yn y stori. Mae rhai ohonyn nhw'n anifeiliaid nosol. Beth yw anifail nosol? Fedrwch chi ganfod tair ffaith ddiddorol am bob un ohonyn nhw, er enghraifft:

- sut maen nhw'n edrych
- ble maen nhw'n byw
- beth maen nhw'n ei fwyta?

Dangoswch eich gwybodaeth mewn ffordd ddiddorol, a'i rannu wedyn gyda'ch cyd-ddisgyblion. Beth am gynnal cwis yn y dosbarth?





GWEITHGAREDD 3: LLUN TEULUOL

Yn y stori, mae gan Charlie deulu cariadus. Mae o wedi cael ei fabwysiadu ac mae ganddo ddau Dad, mae'n galw un yn 'Pa' a'r llall yn 'Dad'.

Wyddoch chi beth mae'r gair 'mabwysiadu' yn ei olygu?

Trafodwch hyn gyda'ch cyd-ddisgyblion. Mi fedrwch chi chwilio am y gair yn y geiriadur i'ch helpu chi.

Mabwysiadu plentyn yw beth mae rhai pobl yn ei wneud pan nad ydyn nhw'n gallu cael plant eu hunain, neu os ydyn nhw am roi cartref llawn cariad i blentyn heb rieni.

Mae'n cymryd llawer o amser i fynd dryw'r broses fabwysiadu, ac mae'n rhaid i'r oedolion weithio gyda phobl sy'n cael eu galw'n weithwyr cymdeithasol i wneud yn siŵr bod y plentyn sy'n cael ei fabwysiadu yn cael cartref cariadus, hapus a diogel i fyw ynddo, yn union fel Charlie. Mae teuluoedd hefyd yn gallu mabwysiadu mwy nag un plentyn, fel mae Tadau Charlie yn gwneud yn y stori, er mwyn i Charlie gael brawd neu chwaer.

Mae mabwysiadu yn ffordd wahanol o wneud teulu, ac fel mae Charlie dweud yn y stori:

"Does dim rhaid i neb ffitio i mewn i focs - mae fy nheulu yn brawf o hynny" tudalen 251

Pa fath o deulu sydd gennych chi?

Pa fath o deulu sydd gan eich ffrindiau? Siaradwch am y gwahanol fathau o deuluoedd gyda'ch cyd-ddisgyblion.

Tynnwch lun o'ch teulu isod, gan feddwl am yr holl bobl sydd yn eich teulu. Dangoswch eich llun i weddill y dosbarth. Ydyn nhw i gyd yr un fath? Cofiwch fod teuluoedd yn dod mewn pob lliw a llun!



GWEITHGAREDD 4: CERRIG CYFEILLGARWCH

Mae Charlie yn ffodus iawn o gael dau ffrind gorau, Lippy a Roo, i'w annog, hyd yn oed pan mae'n teimlo'n ofnus ac yn bryderus. Mae hyn yn cael ei ddangos mewn llawer o ffyrdd drwy gydol y stori, gan gynnwys:

- y ffordd maen nhw'n ei helpu pan mae o mewn angen, gan edrych ar ôl llwynog y tân ac ymladd y Grendilock
- y ffordd maen nhw'n sefyll i fyny drosto fo yn erbyn y ddau fwli yn y dosbarth

Yn ogystal â rhannu'r antur, mae Charlie, Lippy a Roo yn cael llawer o hwyl gyda'i gilydd.

Pa rinweddau yn eich barn chi sy'n gwneud ffrind da?

Meddyliwch am y ffrindiau sydd gennych chi. Meddyliwch am sut rydych yn gwneud i'ch gilydd deimlo, a sut rydych yn ymddwyn tuag at eich gilydd.

Siaradwch am hyn gyda'ch cyd-ddisgyblion, gan nodi eich syniadau yn y gwagle isod. Defnyddiwch y banc geiriau i'ch helpu (peidiwch ag anghofio chwilio yn y geiriadur am unrhyw eiriau sy'n anghyfarwydd, neu gofynnwch i'ch athro am help!):

Ffrind da yw rhywun sydd yn...


**BANC
GEIRIAU**
CAREDIG
LLAWN HWYL
GONEST
YN BAROD
I HELP
FFYDDLON
CYFEILLGAR
GOFALGAR
CEFNOGOL
LLAWN EMPATHI

Mae Charlie, Lippy a Roo yn chwarae gêm helpa drysor ble maen nhw'n peintio carreg fechan a'i chuddio mewn mannau anarferol i'r lleill ddod o hyd iddi (dyma pam bod y stori yn dechrau gyda Charlie mewn Cwt Hwyaidd gyda gŵydd yn rhedeg ar ei ôl!)

Pa neges fydddech chi'n ei hysgrifennu ar garreg ar gyfer eich ffrind?

Efallai y bydddech chi'n dweud wrthyn nhw pa mor anhygoel ydyn nhw! Neu pa mor hapus maen nhw'n gwneud ichi deimlo! Neu efallai yr hoffech chi ddweud diolch am fod yn ffrind.

Defnyddiwch y templed carreg fechan yma i ysgrifennu neges ar gyfer eich ffrind. Fedrwn chi ddod o hyd i rywle i'w chuddio, a rhoi syrpreis iddyn nhw?





GWEITHGAREDD 5: DOD O HYD I'CH 'TÂN MEWNOL'!

Yn y stori, mae Charlie yn aml yn poeni am beidio â bod yn ddigon dewr. Mae'n ei chael hi'n anodd sefyll i fyny yn erbyn y bwlis yn y dosbarth; mae'n poeni am beidio gallu amddiffyn ei frawd neu ei chwaer newydd; mae'n teimlo'n nerfus am fynd i'r ysgol uwchradd ac yn ofnus am beidio â gallu achub Cadno, llwynog y tân, rhag y Grendilock! Mae hynny'n GRYN DIPYN o bethau i boeni amdanynt!

Beth ydych chi'n gwneud pan rydych yn teimlo'n ofnus neu'n bryderus?

Siaradwch am hyn gyda'ch cyd-ddisgyblion.

Rhowch gylch o amgylch y pethau rydych chi'n eu meddwl neu'n eu gwneud pan rydych yn teimlo'n ofnus neu'n bryderus

EI ANWYBYDDU A GOBEITHIO Y BYDD YN MYND I FFWRDD

SIARAD AMDANO GYDA FFRIND NEU OEDOLYN

POENI HYD YN OED FWY AM Y PETH

GOFIDIO A CHRÏO WEITHIAU AM Y PETH

GOFYN AM HELP

Mae'n bwysig gwybod bod pawb yn poeni ac yn teimlo ofn, ac mae siarad am y peth yn helpu! Mae Charlie yn siarad gyda'i Dad am sut mae'n teimlo, sy'n dweud:

*"Nid yw'r ffaith mod i'n ddiffoddwr tân yn golygu nad ydw i'n cael ofn.
Cred ti fi, rwy'n cael ofn drwy'r amser."*

Mae Tad Charlie yn ei annog o hyd i ddod o hyd i'w 'dân mewnl' a bod yn ddewr, hyd yn oed os nad yw'n teimlo felly.

Fedrwch chi feddwl am amser pan oedd rhaid i chi fod yn ddewr, hyd yn oed os nad oeddech chi'n teimlo'n ddewr?

Efallai bod rhaid ichi roi cynnig ar rywbeth newydd, gwneud arholiad, siarad o flaen cynulleidfa neu ddechrau ysgol newydd. Siaradwch am hyn gyda'ch cyd-ddisgyblion. Meddyliwch am:

- beth oedd rhaid ichi wneud
- sut roedd hynny'n gwneud ichi deimlo
- oedd yna unrhyw beth neu unrhyw un a'ch helpodd chi?

Yn y stori, mae Charlie yn wynebu llawer o sefyllfaoedd ble mae angen iddo fo fod yn ddewr. Mae'n dod o hyd i'w 'dân mewnl' yn y pen draw, gyda chymorth ei ffrindiau a'i deulu, a thrwy gredu ynddo'i hun. Gan weithio fesul dau/dwy, meddyliwch am y pethau y gallwch chi eu gwneud i'ch helpu pan rydych yn teimlo'n ofnus neu'n bryderus, a bod yn fwy dewr. Ysgrifennwch eich syniadau yn y fflamau i ddangos sut gallwch chi ddod o hyd i'ch 'tân mewnl'!





SUT FUASWN I'N DOD O HYD I'M 'TÂN MEWNOL' I?

